Llwybr 2 a 3 – Cwrs yn seiliedig ar dargedau i wella sgiliau bywyd

Mae'r cwrs seiliedig ar dargedau Llwybr 2 a 3 hwn yng Ngrŵp Colegau NPTC wedi'i gynllunio i gefnogi myfyrwyr i ddatblygu annibyniaeth, hyder a sgiliau bywyd hanfodol. Mae myfyrwyr hefyd yn gwella sgiliau llythrennedd, rhifedd a chyfathrebu drwy raglen bersonol a gyflwynir drwy bedwar egwyddor allweddol dysgu: Byw'n Annibynnol, Cyflogadwyedd, Cynhwysiant Cymunedol a Datblygiad Personol a Chymdeithasol. Caiff dysgu ei gyflwyno drwy ddull seiliedig ar dargedau unigol gan ddefnyddio RARPA (Cydnabod a Chofnodi Cynnydd a Chyflawniad) i gefnogi, monitro a chofnodi cynnydd a chyflawniad myfyrwyr.

Gofynion Mynediad

Nid oes gofynion mynediad ffurfiol. Caiff myfyrwyr eu hasesu ar ddechrau'r cwrs a'u gosod ar y llwybr mwyaf priodol yn seiliedig ar eu hanghenion unigol, eu galluoedd a'u targedau personol.

Rhagolygon Gyrfa

Gall myfyrwyr symud ymlaen i gyrsiau llwybr eraill, interniaethau â chymorth neu gyfleoedd gwirfoddol. Mae'r cwrs hefyd yn cefnogi datblygiad sgiliau trosglwyddadwy sy'n hyrwyddo annibyniaeth, cyflogadwyedd a chyfranogiad cymunedol yn y dyfodol.

Modiwlau'r cwrs

Cynlluniwyd y cwrs hwn i wella sgiliau bywyd myfyrwyr a samplu nifer o feysydd wrth ddatblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd. Mae'n gwrs personol seiliedig ar dargedau (RARPA) i helpu i hwyluso unrhyw feysydd i'w gwella

Asesiad

Mae asesu'n barhaus ac yn seiliedig ar dargedau a chanlyniadau unigol y myfyriwr. Caiff cynnydd a chyflawniad eu monitro a'u cofnodi drwy'r broses RARPA, gan gynnwys adolygiadau myfyrwyr, gweithgareddau ymarferol, tystiolaeth o gyfranogiad a chyflawni nodau personol.

Costau Ychwanegol

Cysylltwch â'r coleg am wybodaeth ynghylch unrhyw gostau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r cwrs.

DULL ASTUDIO

FT

LLEOLIAD

Coleg Castell-nedd - 0330 818 8100

Coleg Afan - 0330 818 8100

Coleg Bannau Brycheiniog - 0330 818 8100

Coleg Y Drenewydd - 0330 818 8100

HYD Y CWRS

Blwyddyn